



Holl Aelodau'r Senedd
membersofthesenedd@senedd.wales

21 Mehefin 2024

Annwyl Aelod o'r Senedd

Cyllid HS2

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyllid HS2 ar 5 Mehefin, gwnaed cyfeiriadau at amrywiol lefelau o gyllid ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu derbyn mewn perthynas â rhaglen HS2. Roedd cyfeiriadau hefyd at y cyllid oedd 'wedi'i golli i Gymru' o ganlyniad i gamddosbarthu HS2 fel prosiect i Gymru a Lloegr. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol nodi'r fethodoleg y tu ôl i'r ffigurau a ddefnyddiais yn fy nghyfraniad i, a pham mae'r ffigurau hyn yn darparu sylfaen gadarn y gellir cynnal dadl arni.

Nid yw'n bosibl dweud yn fanwl gywir faint o gyllid ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru ei dderbyn yn ystod oes y rhaglen HS2. Gallwn amcangyfrif, fodd bynnag, sut y byddai grant bloc Llywodraeth Cymru wedi newid hyd yma, pe bai HS2 wedi'i dosbarthu fel rhaglen i Loegr yn unig. Yn fwy penodol, mae'n bosibl cyfrifo'r cyllid ychwanegol y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn ers 2015 pe bai ganddi gymharedd â HS2 yn fformiwla Barnett. (Nid oedd HS2 wedi'i nodi yn unigol yn yr atodlen gymharedd adeg adolygiad o wariant 2010 na chylch gwario 2013, felly nid oedd unrhyw faterion cymharedd wedi codi mewn perthynas â fformiwla Barnett cyn adolygiad o wariant 2015.)

Yn ei grynswth, byddai'r cyllid ychwanegol wedi dod i gyfanswm o tua £350 miliwn ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2024-25, gan gynnwys newidiadau hyd at a chan gynnwys Cyllideb mis Mawrth 2024.

Mae'r ychwanegiadau hyn yn deillio o'r ffaith y byddai'r ffactor cymharedd ag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi bod yn uwch adeg cynnal yr Adolygiadau o Wariant. Yn gyffredinol, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi gweld cynnydd yn ei chyllideb dros y cyfnod, felly byddai ffactor cymharedd uwch wedi golygu symiau canlyniadol positif mwy ar gyfer grant bloc Llywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn symiau canlyniadol o newidiadau a wnaed ar wahân i adeg yr adolygiadau o wariant, gan gynnwys dyraniadau unigol sy'n gysylltiedig â HS2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn helpu i egluro'r sefyllfa o ran effaith cyllid HS2, yng nghyd-destun grant bloc Llywodraeth Cymru hyd yma o leiaf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca". The script is cursive and fluid.

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office